

# Astudiaeth achos ffermwr GrassCheckGB

Glyn, Eleri, Dewi ac Ifan Davies, Penlan, Llanrhystud

Mehefin 2024

## Ffeithiau'r fferm

Mae fferm Pen-lan, Llanrhystud yn gartref i'r teulu Davies sy'n rheoli'r daliad ar yr arfordir i gynhyrchu ŵyn o'r ansawdd gorau. Mae'r 35 hectar (86 erw) o dir yn cael ei bori mewn cylchdro gan ddiadell o 250 o famogiaid croesfrid iseldir cymysg ac ŵyn sy'n cael eu gwerthu wedi'u pesgi ar sail pwysau marw o ganol mis Mehefin.

Mae gwneud y defnydd gorau o borfa yn nod allweddol i'r fferm, a rhoddir sylw manwl i faetholion y pridd a'r hadau a ddefnyddir i ail-hadu caeau sy'n tanberfformio, gan ystyried y math o bridd a'r anghenion pori. Mae cynnwys cynydu porthiant sy'n cael eu pori yn eu system cynhyrchu ŵyn yn allweddol ar gyfer rheoli'r cyflenwad porthiant drwy gydol y flwyddyn.

Daw heriau'r priddoedd bas sy'n wynebu'r de yn amlwg pan fo'r tywydd yn sych yn ystod misoedd yr haf, ac mae'r teulu Davies felly yn datblygu strategaethau ar gyfer defnyddio maetholion trwy ddadansoddi'r pridd a chynllunio maetholion ar gyfer pH. Mae cywiro mynegeion yn flaenoriaeth wrth ddewis tir pori sy'n tanberfformio i'w ail hadu a gwneud y defnydd o fewnbwn yn fwy effeithlon.



Eglura Glyn Davies: "Mae gennym dir bas iawn ac mae rhan ohono'n arfordirol iawn gyda thua 8 hectar (20 erw) yn wynebu'r môr. Y tywydd yw'r her fwyaf sydd gennym. Rydyn ni'n llosgi'n rhwydd yma a gall fod yn anodd cael porfa i dyfu ar yr amser iawn. Os yw'n haf sych, byddwn yn rhedeg allan o borfa a dyna pryd mae angen i ni benderfynu beth i'w wneud gyda'r ŵyn. Tan yn ddiweddar, roedd gwneud yn siŵr fod yna borfa ar yr amser iawn yn anodd."

## Dod yn rhan o GrassCheckGB

Gan ddeall bod angen newid tacteg i fynd i'r afael â'r patrymau tywydd heriol a newidiol, tra'n parhau i fod yn broffidiol a chynaliadwy, gweithiodd Glyn Davies gyda Dewi ac Ifan i ddod o hyd i ateb i'w problem porfa. Ymunodd y fferm â GrassCheckGB yn 2022.

## Manteision i'r busnes ers ymuno â GrassCheckGB

Eglurodd Glyn ei fod yn parhau â'r hyn a gafodd ei ddysgu iddo pan ddechreuodd ffermio Penlan yn 1998, drwy bori popeth mewn blociau ar yr un pryd.

"Rydyn ni wedi bod gyda GrassCheck nawr ers dwy flynedd ac rydw i wedi gadael i'r bechgyn barhau â'r prosiect. Down i ddim yn meddwl ei fod yn mynd i weithio ond nawr yn yr



ail flwyddyn rwy'n gweld ein bod ni'n tyfu mwy o borfa. Am y tro cyntaf ers 15 mlynedd, rydyn ni wedi llwyddo i dorri un cae bach o silwair am nad oedd y defaid yn gallu dal i fyny â'r borfa. Dydw i ddim wedi gweld hynny'n digwydd ers blyneddau lawer yma. Rydyn ni'n defnyddio llai o wrtaith ac yn gwerthu mwy o wŷyn am well pwysau a phrisiau.

"Rydyn ni hefyd yn defnyddio llai o danwydd ar y fferm ac yn llwyddo i gael mwy o silwair. Mae hynny'n golygu bod llai o borthiant yn cael ei brynu o'r tu allan. Rydyn ni'n mynd yn fwy hunangynhaliol a chynaliadwy. Drwy bori celloedd yn hytrach na'r cae cyfan, gallwn reoli'r borfa yn well a gallwn weithio ar hynny. Trwy dyfu mwy o borfa, fe allwn ni wneud gwell gwaith yn gyffredinol," eglura Glyn.

Mae'r teulu bellach yn rheoli eu caeau yn chwarteri, gan ddibynnu ar siâp a maint y cae. "Weithiau dim ond hanner cae sy'n cael gwrtiaith er mwyn dal i fyny. Mae penderfynu ble i wasgaru gwrtiaith yn golygu targedu manwl. Dydy'n caeau ni ddim yn anferth, felly rydyn ni'n tueddu i osod dwy ffens drydan er mwyn eu rhannu. Mae'r darnau'n cael eu pori am rai dyddiau ac yna rydyn ni'n cylchdroi," meddai Dewi.

Er bod hyn yn golygu ffordd newydd o weithio, mae'r manteision yn amlwg. "Y llynedd fe wnaethom lwyddo i gael ein hŷyn cyntaf bant o'r fferm yn y drydedd wythnos o fis Mai, a oedd yn gynt nag arfer. Fel arfer, mae'n tawelu wedyn, ond rydyn ni'n dal i werthu. Roedd y mamogiaid a'r wŷyn yn cael porfa ffres bob 2 – 3 diwrnod drwy'r amser. Doedd dim prinder porthiant o gwbl.

"Mae'n debyg bod y mamogiaid eu hunain yn y cyflwr gorau y buon nhw ynddo erioed. Roedden nhw'n edrych yn dda yn yr hydref pan aethon nhw at yr hyrddod, roedd y ganran sganio yn uwch a chawson ni lawer mwy o efeilliaid nag arfer. Mewn gwirionedd rydyn ni'n cael tua 65 yn fwy o wŷyn nag yn y blyneddau blaenorol ac mae'r mamogiaid eu hunain yn iach," ychwanega Ifan.

Daeth newid pellach o ran rheoli'r tir pan gyflwynwyd cae o faip sofl ac mae'n fwriad i ail-hadu, gyda'r holl benderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail data. Eglura Dewi: "Rydyn ni'n defnyddio'r llecyn maip fel ffynhonnell egni a phrotein i'r mamogiaid a'r wŷyn ar ôl wŷyna ac mae'n golygu nad oes angen bwydo dwysfwyd. Mae hynny i gyd yn ychwanegu at gynaliadwyedd y fferm.

"Rydyn ni nawr yn edrych ar raglen ail-hadu hefyd. Y bwriad yw cynnwys rhywfaint o borthiant – rēp porthiant i besgi'r



wŷyn yn yr haf, sofl maip yn mynd i mewn wedyn ac yna byddwn yn ail-hadu yn y gwanwyn ac yn mynd yn ôl at borfa. Does dim ail-hadu wedi digwydd yma ers tua 20 mlynedd. Nawr rydyn ni'n edrych ar y caeau sy'n perfformio orau ac yn dewis y rhai sydd mewn angen. Mae'r data yno, ac rydym yn gwneud ein penderfyniadau ar sail y data hwnnw."

### Gwersi pwysig a ddysgwyd ers ymuno â GrassCheckGB

Yn ôl Dewi, er bod angen tipyn o waith, bod yr elw o'r buddsoddiad yn werth chweil.

Dywed: "Mae'n rhaid i chi fesur y borfa a threulio peth amser i gofnodi eich data. Yn bennaf, rhaid i chi ymrwymo i reoli'r tir. Fodd bynnag, rydych chi'n arbed amser mewn ffyrdd eraill yn y pen draw."

Ychwanega Ifan: "Mae gennym orsaf dywydd a mesurydd plât, a gafodd eu cyflenwi fel rhan o'r prosiect. Mae'n ddiddorol dilyn patrwm y tywydd, ac mae hynny wedyn yn cael ei fwydo i mewn i fodel GrassCheckGB. Mae'r grŵp WhatsApp yn ddefnyddiol hefyd i gael syniadau newydd.

"Mae'r ffordd hon o ffermio hefyd yn golygu cyllidebu a gweld beth sydd o'ch blaen. Mae'n golygu newid sut rydych chi'n rheoli'r tir i gyd-fynd â'r tywydd – ond mae hefyd yn gwneud yn siŵr fod gennych ddigon o borfa i gario ymlaen."